**CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR: Cofnodion Cyfarfod**
**5ed Ebrill 2023 yn Y Ganolfan, Penmynydd**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng., Dewi Gwyn (Cadeirydd), D.Idriswyn Roberts, Nia Jones, Heulwen Owen.<br>Clerc: Gillian Morris | |
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU**<br>Janet Jones, Llinos Roberts, Selwyn Hughes. |
| **2.** | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| **3.** | **DERBYN COFNODION**<br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 01/03/2023. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir. DIR yn cynnig, NJ yn eilio. |
| **4.** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| 4.1 | Pecyn Gardd Bywyd Gwyllt – Y glasbrennau wedi eu plannu a dros 30 o bobl wedi bod yn rhan o'r cynllun. |
| 4.2 | Grant Ymddiriedolaeth Elusennol Môn – Cais wedi llwyddo i fynd trwy cam 1. Pwyllgor ymddiriedolaeth yn cyfarfod 21/04/2023 i wneud penderfyniad. |
| 4.3 | Cyfethol Sedd Wag – DG yn croesawu Heulwen Owen i'r Cyngor. |
| 4.4 | Gwefan – DG yn esbonio nid ydi'r polisi hygyrchedd yn statudol, ond am ei gwblhau. |
| 4.5 | Gwair - Clerc wedi derbyn ymateb gan Gwenno Pugh Tyn Llan. Clerc i ymateb. |
| **5.0** | **Materion ariannol** |
| 5.1 | Cafwyd diweddariad gan y clerc ar y sefyllfa ariannol. Arian yn y banc, taliad cyflog, CSYM a Cyngor Gwynedd. |
| 5.2 | HMRC/PAYE - Clerc wedi rhoi apêl ar gyfer y taliadau cosb. |
| 5.3 | Pensiynau - ail ddatganiad wedi ei gwblhau. |
| 5.4 | Datganiad Blynyddol 2022/2023 - Clerc i gwblhau. |
| **6.0** | **GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN** |
| | |
| **7.0** | **Ceisiadau Cynllunio** |
| 7.1 | Garnedd Goch, Star - Gwrthodwyd. |
| **8.0** | **Gohebiaeth Ychwanegol** |
| **8.1** | Cynllun Gwylio cyflymder Cymunedol - Angen casglu enwau o'r ddau bentref. SO am weithredu ym Mhenmynydd a LLR yn Star. |
| **8.2** | Adroddiad Mewnol a Datganiadau Ariannol - Adroddiad ar y wefan. |
| **9.0** | **MATERION ERAILL** |
| **9.1** | **Hyfforddiant** - DG yn annog y Cynghorwyr i edrych ar y rhestr a chysylltu gyda'r Clerc. Clerc i hefyd edrych ar ba hyfforddiant fuasai o fudd. |
| **9.2** | **Y Ganolfan -** Cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal ym mis Mai. Cyngor cymuned yn awyddus iawn i fagu perthynas gyda'r Ganolfan. |
| **9.3** | **Torri Glaswellt -** DG yn datgan bod Norman Jones yn cwblhau'r gwaith i safon uchel. |

| | |
|---|---|
| **9.4** | **Cyrb -** DG yn disgwyl i glywed gan CSYM os oes angen caniatâd i'w ostwng wrth fynedfa'r cae chwarae. |
| **9.4** | **Elusendai -** Cronfa gwella'r Elusendai, DIR yn rhoi diweddariad bod cynllun busnes yn ei le. Cyfarfod yn cael ei drefnu gyda CSYM er mwyn creu partneriaeth. Disgwyl ymateb gan Gymdeithas Tai Gwledig er mwyn cynnal gwaith ymchwil. DIR yn datgan bod angen cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned ar y bwrdd llywodraethu, Heulwen Owen yn cytuno. |
| **10.0** | **EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF** |
| | Nia yn ymddiheuro ni fydd yn bresennol. |
| | Hyfforddiant Defib |

**Llofnod** **Dyddiad**